

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygol Ffordd y Gogledd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Awst 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4. Y camau nesaf	25
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Ffordd y Gogledd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 10 Ebrill 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 31 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 8 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn hwylus i'r cleifion, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd y cleifion wrthym fod y clinigwyr yn esbonio pethau'n dda ac yn ateb eu cwestiynau. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y practis. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod opsiwn ar gael i'r cleifion siarad â staff y dderbynfa'n breifat, a bod pob claf yn cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau personol.

Roedd y gofal cywir yn cael ei gynnig i'r cleifion mewn modd amserol, roedd llwybrau gofal clir ar waith ac roedd cleifion yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau eraill. Gwelsom fod y staff yn dangos ymrwymiad i'r angen i gefnogi cleifion mewn ffordd gyfartal, a'u bod yn deall yr angen i wneud hynny. Roedd hyn yn sicrhau bod hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis bob amser gynnig hebryngwr i'r cleifion a sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cwblhau
- Rhaid i'r practis sicrhau bod cynrychiolwyr o bob adran o'r practis yn bresennol mewn cyfarfodydd, pan fo hynny'n ymarferol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cymysgedd addas o ddulliau cyfathrebu digidol ac wyneb yn wyneb yn cael eu defnyddio gan y practis
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion am eu profiad yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod yr ardaloedd roedd y cyhoedd yn eu gweld o'r practis yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Fodd bynnag, roedd rhan o'r practis a oedd ar gael i'r staff yn unig yn anniben ac yn flêr, a oedd yn peri risg i'r staff. Ar y cyfan, roedd y dull o atal a rheoli heintiau yn briodol ac roedd pob ardal a arolygwyd gennym yn lân ac yn daclus yr olwg. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i'r broses o roi amserlenni glanhau llawn ar waith ac i'r broses o reoli risgiau, gan ein bod wedi nodi bod y dyddiad ar yr asesiadau risg wedi mynd heibio neu nad oeddent yn cynnwys digon o fanylion. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir a'u

gwirio ar adegau priodol, er i ni ganfod un eitem a oedd wedi'i storio'n amhriodol ac ar gam mewn oergell. Cafodd yr eitem ei symud oddi yno ar unwaith.

Roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn cael eu rheoli'n gywir ac roedd cleifion yn cael eu hatgyfeirio mewn modd amserol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'i asesiadau risg a chynnal archwiliadau rheolaidd o'i wastraff
- Rhaid i'r practis sicrhau y gellir glanhau pob arwyneb yn y practis yn effeithiol, yn enwedig yn yr ystafelloedd trin
- Dylai'r practis hyrwyddo rôl yr arweinydd diogelu yn fwy cadarn i bob aelod o'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y practis yn lân, yn daclus ac yn diwallu eu hanghenion
- Roedd cofnodion y cleifion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn gyfredol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm rheoli yn cefnogi grŵp o staff ymrwymedig ac ymroddedig, yr oedd pob un ohonynt yn gweithio er lles pennaf eu cleifion. Roedd rhaglen sefydlu a hyfforddiant briodol ar waith. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyfforddiant sylfaenol mewn atal a rheoli heintiau wedi'i gynnwys yng nghofnodion y staff gweinyddol. Roedd hefyd yn ofynnol i'r practis wella ei resymeg a'i asesiadau risg ar gyfer staff sy'n gweithredu heb wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd yr arweinwyr yn hawdd mynd atynt a dywedodd y staff wrthym eu bod yn falch gweithio i Bractis Meddygol Ffordd y Gogledd yn ogystal â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Ar y cyfan, diwylliant y practis oedd helpu'r staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis gael rhesymeg glir, gan gynnwys asesiad risg, ar gyfer staff sy'n gweithio heb wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Dylai'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd i gynnig hyfforddiant Cymraeg i'r staff ac amser iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn serchog â chleifion a gyda'i gilydd

- Roedd strwythurau rheoli clir ar waith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal y maent yn ei gael ym Mhractis Meddygol Ffordd y Gogledd. Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 31 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Dyweddodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi gweld pob meddyg yn y practis hwn ar gyfer fy holl broblemau dros y blynyddoedd ac mae pob un wedi bod yn wych. Mae'r tîm cyfan yn garedig, yn dangos empathi, yn gwrando ac yn broffesiynol, gan gynnwys y staff gweinyddol/staff y dderbynfa. Gwych.”

“Ardderchog, fyddwn i ddim yn newid dim.”

“Mae pob un o'r staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol. Rwy'n falch iawn â'r practis hwn.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael drwy'r wefan ac yn cael ei harddangos o amgylch y practis. Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gyfer hunangymorth a lles meddyliol ar gael yn yr ardal aros i gleifion. Roedd y practis yn cyfeirio cleifion at wasanaethau iechyd meddwl ac yn gwneud atgyfeiriadau at bartneriaid iechyd meddwl addas mewn modd amserol.

Dyweddodd pob ymatebydd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis. Roedd pob un ond un o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gwelsom gyswllt diweddar â rhaglen atal Diabetes Cymru gyfan a chysylltiadau priodol â gwasanaethau eraill. Roedd y gwasanaethau hyn yn gwella gallu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion a mynediad at y gofal hwn. Roedd swyddogion llywio gofal yn gweithio i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir yn dilyn eu cyswllt cychwynol â'r practis. Roedd y cleifion hefyd yn gallu hunanatgyfeirio, gan gynnwys ar gyfer clinigau iechyd rhywiol ynghyd â gwasanaethau cymorth cyffuriau ac alcohol.

Roedd y broses ar gyfer apwyntiadau sy'n cael eu methu yn briodol ac roedd negeseuon testun yn cael eu hanfon at y rhai nad oeddent yn mynychu eu hapwyntiadau. Roedd staff y practis yn cysylltu â'r rhieni neu'r gwarcheidwaid pan fyddai unigolion dan 18 oed wedi methu apwyntiadau.

Roedd gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynoriadau. Yn ogystal, roedd llenni preifatrwydd ar gael ym mhob ystafell drin a phob ystafell ymgynghori. Roedd sgrin wydr o flaen desg y dderbynfa ac roedd yr ardal aros ar wahân i'r dderbynfa er mwyn sicrhau na ellid clywed sgysiau ffôn. Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion ofyn am gael siarad â'r staff mewn ystafell breifat pe byddai angen, ond nid oedd y wybodaeth hon yn cael e'i rhannu â'r cleifion wrth ddesg y dderbynfa. Nododd hanner yr ymatebwyr i holiadur AGIC nad oeddent yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed. Gwnaethom nodi y gallai hyn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion yn y practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod opsiwn ar gael i'r cleifion siarad â staff y dderbynfa yn breifat ar gais.

Roedd nifer addas o'r staff wedi cael hyfforddiant i hebrwng cleifion, pan fo angen, yn unol â pholisi'r practis. Wrth edrych ar gofnodion y practis, gwelsom fod manylion hebryngwyr wedi'u nodi'n briodol yng nghofnod pob un ond un o'r deg claf. Nododd un claf a ymatebodd i holiadur AGIC na chynigiwyd hebryngwr iddo ar gyfer archwiliad personol.

Rhaid i'r practis bob amser gynnig hebryngwr i'r cleifion a sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cwblhau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn fod mesurau yn cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Bob amser yn wych, y dderbynfa a'r driniaeth.”

“Rwyf bob amser wedi teimlo bod fy mhryderon yn cael eu cydnabod a bod y staff yn gwranddo arnynt ac yn eu hystyried wrth roi gofal i mi. Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r gofal rwyf i a fy nheulu yn ei gael yno.”

“Rwy'n ddiolchgar am ofal ac ymroddiad y staff yno. Rwy'n gallu cael gofal pan fydd ei angen arnaf ac rwy'n hyderus yn eu harbenigedd.”

Amserol

Gofal Amserol

Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau y gallai'r cleifion gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy e-bost, drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu'n briodol dros y ffôn gan staff y dderbynfa, gan ymgynghori â chlinigydd. Roedd unrhyw glaf a oedd am gael apwyntiad wyneb yn wyneb yn cael apwyntiad o'r fath. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid aros tua wythnos neu ddwy i weld clinigydd, neu dair wythnos i weld clinigydd penodol.

Roedd y rhan fwyaf o alwadau ffôn yn cael eu hateb o fewn 2 funud, ond nid oedd y targed hwn bob amser yn cael ei gyrraedd oherwydd nifer uchel y galwadau ar adegau brig. Roedd aelodau ychwanegol o staff yn cael eu defnyddio pan fyddai'r llinellau ffôn yn mynd yn brysur fel na fyddai cleifion yn gorfod aros yn hir am ateb.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd y cleifion wrthym:

- Bod eu hapwyntiad ar amser - 64%
- Eu bod wedi cael digon o amser i esbonio eu hanghenion iechyd - 96%
- Eu bod wedi gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys - 85%
- Eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau pe bai angen cyngor meddygol neu apwyntiad arnynt na allai aros tan oriau agor y feddygfa - 96%
- Eu bod wedi gallu cael apwyntiadau arferol pan oedd eu hangen arnynt - 89%.

Dywedodd un claf:

“Rwy'n clywed sylwadau negyddol iawn am bractisau meddygon teulu, ond rwyf bob amser wedi gallu gweld rhywun mewn modd amserol ac wyneb yn wyneb fel arfer.”

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd holiadur AGIC fod y cleifion yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y feddygfa mewn modd amserol. Byddai cleifion y mae angen cymorth arnynt gyda'u hiechyd meddwl yn cael eu gweld ar yr un diwrnod neu byddai clinigydd yn cysylltu â nhw dros y ffôn. Roedd staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant i frysbenno cleifion dros y ffôn ac i gynnig llwybrau gofal clir neu eu cyfeirio at wasanaeth arall, lle y bo'n berthnasol. Roedd gwasanaeth 'Opsiwn 2' GIG 111 yn cael ei gynnig i gleifion â phryderon iechyd meddwl ac roedd gwefan y practis yn cael ei defnyddio i'w cyfeirio at wasanaethau eraill. Roedd darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd amlldisgyblaethol a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng clinigwyr yn y practis.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd cymysgedd addas o ddulliau cyfathrebu digidol ac wyneb yn wyneb yn cael eu defnyddio gan y practis, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd ar hysbysfyrdau ac ar wefan y practis. Roedd modd cyfieithu'r sgriniau cofrestru cleifion i wahanol ieithoedd a meintiau ffont, yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellid diwallu unrhyw anghenion penodol ar gais, a gwelsom dystiolaeth fod gwahanol opsiynau cyfathrebu ar gael i'r cleifion fel mater o drefn.

Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd llawer o ymdrech i sicrhau darpariaeth Gymraeg ac i symud tuag at roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith. Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd nad oedd unrhyw aelod o'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg, ac mai dim ond un clinigydd oedd yn siarad Cymraeg, ac nad oedd yn hyderus. Gwelsom mai arwyddion uniaith Saesneg oedd o amgylch y practis ond cadarnhaodd y staff fod y llinell iaith yn cael ei defnyddio i gyfathrebu â chleifion, yn ôl yr angen.

Dylai'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn llawn.

Roedd prosesau cyfathrebu rhwng clinigwyr yn cael eu nodi'n ffurfiol fel mater o drefn yng nghofnodion y practis ac yn ystod cyfarfodydd amlldisgyblaethol. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y staff nyrsio yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd tîm amlldisgyblaethol lle roedd diweddariadau a sgysiau pwysig yn cael eu cynnal am gleifion. Roedd hyn yn peri risg na fyddai'r tîm nyrsio yn ymwybodol o wybodaeth am gleifion neu brosesau'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cynrychiolwyr o bob adran o'r practis yn bresennol mewn cyfarfodydd, pan fo hynny'n ymarferol.

Gwelsom fod y system ar gyfer rhannu gwybodaeth am achosion pan fyddai cleifion yn cael eu gweld gan ymarferwyr eraill yn addas, ynghyd â'r broses ar gyfer rheoli atgyfeiriadau a oedd yn cyrraedd y practis ac yn cael eu gwneud gan y practis.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd y practis yn gweithredu mewn ffordd gadarnhaol wrth ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth ac roedd y staff yn dangos ymrwymiad i gefnogi pob claf yn gyfartal a dealltwriaeth o'r angen i wneud hynny. Roedd ramp er mwyn cyrraedd y practis ac roedd unrhyw gleifion ag anghenion symudedd penodol yn cael eu gweld mewn ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod. Gwnaethom hefyd nodi bod toiledau i bobl anabl yn y practis a gwelsom enghreifftiau o'r staff yn helpu cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom gadarnhau fod y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwnaethom gadarnhau hefyd fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ddiweddar. Roedd addasiadau rhesymol hefyd wedi cael eu gwneud i'r staff, gan gynnwys cadeiriau a chyfarpar desg newydd. Rhoddodd y staff enghreifftiau i ni o'r modd roedd y practis wedi cefnogi cleifion yr oedd angen iddynt ddefnyddio cyfarpar arbenigol i gyfathrebu.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr ardaloedd o'r practis roedd y cyhoedd yn eu gweld yn cael eu cadw'n daclus, yn drefnus ac yn ddiogel. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod yr adeilad yn hygyrch (90%), bod digon o seddi yn yr ardal aros (97%) a bod y toiledau yn addas ar gyfer eu hanghenion (92%). Fodd bynnag, gwelsom fod ardal i'r staff yn unig ar lawr uchaf y practis yn anhrefnus, gyda blychau yn cael eu storio ar y llawr ym mhob rhan o'r ystafell. Roedd yn ymddangos fel petai eitemau wedi cael eu gadael ar y llawr ac ar ddesgiau, ac roedd cynhyrchion glanhau i'w gweld nad oeddent wedi'u storio mewn cypyrddau. Gwnaethom nodi y gallai'r peryglon baglu niferus a'r cyfarpar glanhau nad oedd wedi'i storio'n ddiogel yn yr ardal hon beri risg i'r staff a oedd yn defnyddio'r rhan hon o'r adeilad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob rhan o'r adeilad yn cael ei chadw'n daclus ac yn drefnus.

Gwelsom fod asesiadau risg ar ddiogelwch tân, iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal mewn modd addas ond roedd yn ymddangos bod y ddogfen gyflawn ddiweddaraf a welsom wedi'i llunio yn 2019. Roedd asesiadau risg mwy diweddar wedi'u cwblhau gan staff y practis, ond nid oeddent yn nodi'r holl risgiau sy'n bodoli a dim ond nifer cyfyngedig o beryglon posibl a amlinellwyd ganddynt. Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i nodi yn asesu'r risgiau hyn, ond nid oedd y dogfennau yn gynhwysfawr. Argymhellwyd y dylai'r practis ofyn i ddarparwr asesiadau risg allanol ei helpu i gynnal adolygiad cynhwysfawr o asesiadau risg y practis. Cawsom sicrwydd bod y risgiau sy'n bodoli yn cael eu hasesu ond roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â nifer y peryglon a nodwyd.

Rhaid i'r practis gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i asesiadau risg o ran diogelwch tân, iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau.

Gwelsom arwyddion priodol ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys posteri hylendid dwylo ynghyd ag arwyddion diogelwch a diogelu addas yn cael eu harddangos. Roedd cynwysyddion offer miniog wedi'u gosod yn sownd ac nid oeddent wedi'u gorlenwi, ac roedd contract addas ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff yn rheolaidd.

Roedd cynllun parhad busnes y practis yn gadarn ac yn cael ei oruchwylio gan reolwr y practis. Roedd y cynllun yn cyfeirio at waith partneriaeth busnes y practis, gan gynnwys absenoldeb staff hirdymor ac yn nodi ymateb y practis i

argyfyngau iechyd. Roedd cynllun y practis wedi'i storio ar yriant cyfrifiadur â mynediad a rennir, ac roedd copïau'n cael eu cadw gan bartneriaid y feddygfa.

Clywsom gan staff eu bod yn gweithio'n agos fel rhan o grŵp clwstwr y bwrdd iechyd i wella gofal i gleifion. Gwelsom hefyd fod rhybuddion diogelwch cleifion yn cael eu hanfon yn rheolaidd at y practis ac yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd. Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Gwelwyd dulliau addas ar gyfer galw am help ar frys, a dywedodd y staff wrthym fod y system hon wedi cael ei phrofi'n ddiweddar.

Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer ymweld â chleifion gartref mewn modd amserol a diogel yn briodol. Roedd y broses o frysbennu cleifion yr oedd angen iddynt fynd i'r ysbyty yn cael ei chofnodi fel rhan o gofnodion y cleifion. Gwnaethom nodi bod gweithdrefnau da ar waith ar gyfer adegau pan fyddai'n rhaid aros yn hir am ambiwlans neu pan na fyddai un ar gael. Yn yr achosion hyn, byddai'r practis yn talu i gwmni tacsï lleol gludo'r cleifion i'r ysbyty.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod y practis yn lân a bod rhai gweithdrefnau cadarn ar waith i atal a rheoli lledaeniad heintiau. Roedd arweinydd y practis ar gyfer atal a rheoli heintiau yn nyrs brofiadol sydd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisi atal a rheoli heintiau nac yn gwybod ble y gellid dod o hyd iddo.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhannu ei bolisiau'n glir â phob aelod o'r staff a bod modd dod o hyd iddynt yn hawdd.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod rhai rhannau o'r practis wedi dyddio, ac yn cynnwys eitemau hŷn o gyfarpar ac ystafelloedd ymgynghori â charpedi ar y llawr. Gwnaethom nodi mai dim ond ar gyfer ymgynghoriadau y defnyddir yr ardaloedd hyn a bod unrhyw driniaethau mewnwthiol yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin a oedd yn addas ar gyfer triniaethau mewnwthiol. Er bod y cyfarpar yn hŷn, roedd modd ei lanhau'n effeithiol, ac roedd y carpedi'n cael eu glanhau'n rheolaidd. Roedd yr holl risgiau i'r cleifion yn cael eu hasesu'n gywir, ac roedd pob ardal yn cael ei glanhau yn rheolaidd. Gwnaethom gynghori rheolwyr y practis efallai y dylid rhoi blaenoriaeth i foderneiddio'r ardaloedd hyn pan fyddai'r practis yn cael ei adnewyddu nesaf.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis naill ai'n 'lân' neu'n 'lân iawn'. Nododd pob ymatebydd ond un fod

arwyddion wedi'u harddangos yn nodi beth i'w wneud os oeddent yn heintus. Nododd pob un o'r cleifion fod y staff yn golchi eu dwylo cyn eu trin.

O'r cleifion hynny a nododd eu bod wedi cael triniaeth fewnwithiol yn y practis, nododd pob claf ond un fod y staff wedi defnyddio menig yn ystod y driniaeth. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn cynnal y driniaeth a bod unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol neu wedi'i ddiheintio.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff gofal iechyd.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gynnal arferion atal a rheoli heintiau da ac roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael yn yr ystafelloedd trin. Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd ac roedd y staff yn gyfarwydd â'r camau i'w cymryd er mwyn lleihau'r risgiau o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Yn yr ystafelloedd ymgynghori, gwnaethom nodi nad oedd dyddiadau wedi'u hysgrifennu ar y llenni preifatrwydd tafladwy, a oedd yn golygu na allem gadarnhau pryd y cawsant eu gosod. Nid oedd unrhyw driniaethau mewnwithiol yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd hyn, felly roedd y risgiau i'r cleifion yn isel, ond dylid nodi dyddiad ar bob eitem dafladwy. Gwelsom hefyd bosteri a phapurau eraill wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys yr ystafell drin, nad oeddent wedi'u lamineiddio, a oedd yn golygu na ellid eu glanhau'n effeithiol. Gallai hyn beri risg i ddiogelwch y cleifion. Dywedodd hanner y staff a ymatebodd i holiadur AGIC nad oedd modd glanhau'r amgylchedd yn effeithiol neu nad oedd amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dyddiad wedi'i nodi ar eitemau tafladwy, fel llenni preifatrwydd.

Rhaid i'r practis sicrhau y gellir glanhau pob arwyneb yn y practis yn effeithiol, yn enwedig yn yr ystafelloedd trin.

Er nad oedd yn rhan ffurfiol o'r arolygiad hwn, pan wnaethom ymweld â changen Practis Meddygol Ffordd y Gogledd yn ei safle ym Meddygfa Cathedral View ar Llanidloes Road gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran ei harferion atal a rheoli heintiau fel a ganlyn:

- Nid oedd amserlen lanhau ar waith ar gyfer rhai ardaloedd o gangen y practis
- Nid oedd rhestr wirio ar waith er mwyn i'r staff wybod pa ardaloedd oedd wedi cael eu glanhau

- Roedd y cwpwrdd glanhau yn anniben ac roedd eitemau yn cael eu storio'n amhriodol.

Ni chynhaliwyd arolygiad llawn o'r safle hwn ac er bod Meddygfa Cathedral View yn lân yr olwg, heb amserlen na rhestr wirio ar waith, mae'n bosibl y byddai hynny'n effeithio ar y safonau hyn.

Rhaid i'r practis roi amserlen lanhau a rhestr wirio ar waith ar gyfer Meddygfa Cathedral View er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael ei chadw'n lân, yn daclus ac yn drefnus.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod systemau addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr oergelloedd a ddefnyddir i storio brechiadau yn cael eu monitro bob dydd gan nyrsys a bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli achosion pan fyddai'r system yn methu. Gwelsom fod yr oergell yn yr ystafell drin ym mhreactis Ffordd y Gogledd yn lân ac yn drefnus, fodd bynnag, daethom o hyd i sampl wrin a oedd wedi'i storio yno. Ni ddylid cadw wrin mewn oergell, ac ni ddylid ei storio ochr yn ochr â meddyginiaethau. Dywedwyd wrthym ei fod wedi cael ei storio yno ar gam ac nad oedd hyn yn digwydd fel arfer. Ceir rhagor o fanylion am y camau gweithredu a gymerwyd gan AGIC mewn perthynas â'r mater hwn yn [Atodiad A](#) o'r adroddiad hwn.

Roedd y cleifion yn gallu archebu presgripsiynau'n ysgrifenedig, drwy ap symudol y GIG yng Nghymru neu drwy eu fferyllfa leol. Roedd presgripsiynau yn cael eu prosesu mewn modd amserol gan glerciaid a oedd wedi cael hyfforddiant addas ac yn cael eu hawdurdodi gan feddyg.

Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer gwirio ac archebu meddyginiaethau yn foddhaol. Gwelsom fod yr holl feddyginiaethau ar y troli brys yn cael eu cadw dan glo'n ddiogel. Roedd pob meddyginiaeth ond un o fewn y dyddiad defnyddio. Roedd y dyddiad ar yr Hydrocortisone Sodium Succinate wedi mynd heibio. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r staff a ddywedodd fod hyn am fod y feddyginiaeth honno'n brin yn y DU. Cynghorwyd y practis y dylai gadw mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd i fonitro'r sefyllfa o ran stociau Hydrocortisone Sodium Succinate.

Rhaid i'r practis gadw mewn cysylltiad agos â'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r prinder Hydrocortisone Sodium Succinate ac archebu cyflenwad newydd pan fydd ar gael.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd y gweithdrefnau a'r polisiau a oedd ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn foddhaol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod ein harolygiad yn gallu enwi arweinydd diogelu'r practis a gwelsom fod manylion yr unigolyn hwnnw wedi'u harddangos ac wedi'u cynnwys ym mholisiau'r practis. Fodd bynnag, dywedodd hanner yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC eu bod naill ai'n 'anghytuno'n gryf' neu'n 'anghytuno' eu bod yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y practis.

Dylai'r practis hyrwyddo rôl yr arweinydd diogelu yn fwy cadarn i bob aelod o'r staff.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd y cofnodion yn tynnu sylw priodol at unrhyw bryderon diogelu ac yn dilyn llwybr diogelu addas, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau yn erbyn y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn cael eu harchwilio'n briodol a'u bod mewn cyflwr da. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio'r cyfarpar hwn neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir. Roedd y cyfarpar brys ar gael yn hwylus, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd iddo. Roedd y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd wedi'i wefru ac yn cael ei wirio'n rheolaidd, ac roedd archwiliadau ar waith ar gyfer monitro'r cyfarpar a chael cyfarpar newydd.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedodd y staff wrthym fod partneriaid a rheolwr y practis yn rhannu newidiadau neu ganllawiau newydd fel mater o drefn. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gynhwysfawr ac yn cael eu dosbarthu i'r unigolion hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Roedd atgyfeiriadau yn cael eu rheoli i safon foddhaol, gan gynnwys rhai brys. Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal gan staff ar unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer achosion o ganser a amheuir. Roedd y broses ar gyfer archebu profion a rhannu canlyniadau profion â'r cleifion yn gadarn. Roedd system briodol hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt.

Roedd cleifion yr oedd angen help meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael gwybodaeth addas, a dywedwyd wrthym y byddai camau dilynol yn cael eu cymryd.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf i gyd yn ystod ein harolygiad. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roedd y cofnodion a welsom yn gyfredol a byddai clinigwyr eraill a fyddai'n edrych arnynt yn gallu eu deall.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn staff ar Bractis Meddygol Ffordd y Gogledd. Cafwyd 8 ymateb i gyd gan staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, a oedd yn golygu nad oedd wyth ymateb i bob cwestiwn. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae'r practis yn lle gwych i weithio ynddo. Mae'r meddygon yn wych ac yn dangos gofal tuag at y cleifion a'r staff. Rwy'n meddwl ein bod ni'n trin ein holl gleifion yn deg ac yn gyfartal. Mae llawer o'n cleifion yn dweud wrthym mai ni yw'r practis gorau.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Glendid yw'r broblem fwyaf yma.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd tîm rheoli cefnogol ac ymroddedig yn gweithio er budd y staff a'r cleifion. Roedd cadwyn rheoli a chadwyn goruchwyllo clinigol clir i'w gweld yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod pwy y dylid rhoi gwybod iddynt am unrhyw faterion. Roedd polisïau a gweithdrefnau'r practis yn foddhaol ac roedd y dulliau o gyfleu unrhyw newidiadau i'r staff yn briodol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu storio ar yriant a rennir y gallai pob aelod o'r staff ei ddefnyddio.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac roedd y cofnodion yn dangos bod trafodaethau addas yn cael eu cynnal ar recriwtio, iechyd a diogelwch ac adborth gan gleifion. Roedd cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal i drafod digwyddiadau o bwys ac i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd y practis yn gweithio'n agos â chlwstwr y Bwrdd Iechyd a'i grŵp cydweithredol i rannu gwersi a ddysgwyd ac i gyd-reoli mentrau. Gwnaethom nodi gyda'r staff bod cyfarfodydd rheolwyr practis y gwahanol bractisau wedi dod i ben yn ddiweddar, er eu bod yn ddefnyddiol i'r rheolwyr.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym y cafwyd trosiant staff uchel o fewn y tair blynedd diwethaf, a oedd wedi effeithio ar gydlyniant y tîm. Fodd bynnag, gyda

thîm mwy sefydledig, roeddent bellach yn canolbwyntio ar fentrau llesiant ar gyfer staff, gan gynnwys taith gerdded elusennol a oedd wedi cael ei gohirio ers y flwyddyn flaenorol. Clywsom fod y cynnydd diweddar yn nifer y cleifion wedi bod yn heriol ond bod yr ymgyrch i recriwtio mwy o staff yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i'r staff ac ar gyfer sefydlu aelodau newydd o'r tîm. Roedd rhaglen sefydlu wedi'i theilwra'n benodol yn cael ei chynnig i aelodau newydd o staff ym mhob rhan o'r practis. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym ei bod yn anodd recriwtio a chadw staff oherwydd pwysau ariannol a'r gronfa o ymgeiswyr addas yn eu hardal leol.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gweithio'n unol â'u cymwysterau, eu sgiliau a'u profiad ac nad oedd unrhyw ddisgwyliad iddynt weithio y tu hwnt i hynny. Gwelsom fod cymysgedd sgiliau priodol ar draws timau'r practis i ddarparu'r gwasanaethau gofynnol.

Roedd hyfforddiant yn cael ei oruchwylio gan reolwr y practis, ac roedd anghenion hyfforddiant yn cael eu nodi drwy arfarniadau a chynllun datblygu'r practis. Gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant diweddar a gynhaliwyd mewn perthynas â thrin staff a chleifion yn deg a chyfartal. Gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff ond un wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol, a hynny oherwydd absenoldeb. Trefnwyd i'r aelod o staff nad oedd wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf gael hyfforddiant ym mis Mai 2024, ar y cyd â dau aelod newydd o staff. O'r 13 o staff anghlinigol, nid oedd chwech ohonynt wedi cael hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau. Byddai lefel sylfaenol o hyfforddiant yn sicrhau bod risgiau o heintiau yn cael eu rheoli'n briodol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau hyd at lefel sylfaenol.

Roedd datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gynnal drwy chwe sesiwn hyfforddiant pedair awr o hyd bob blwyddyn. Roedd y cyrsiau hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng cyrsiau wedi'u trefnu a'u cyflwyno gan y practis, y bwrdd iechyd a'r clwstwr lleol. Gwelsom fod rhaglen hyfforddiant briodol yn cael ei darparu i bob aelod o'r staff. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddweud wrthym nad oedd hyfforddiant Cymraeg yn cael ei gynnig fel mater o drefn ac nad oedd amser yn cael ei roi i'r staff gwblhau'r hyfforddiant.

Dylai'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd i gynnig hyfforddiant Cymraeg i'r staff yn ogystal ag amser iddynt gwblhau'r hyfforddiant.

Roedd contractau cyflogaeth ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom fod system gadarn ar waith ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i aelodau newydd o staff. Roedd pob aelod newydd o staff wedi cael gwiriad Safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd aelodau'r timau clinigol wedi cael gwiriadau Manylach. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r materion canlynol mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi i'r staff:

- Nid oedd gwiriadau Safonol na Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff gweinyddol hirsefydlog i'w gweld yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod rhesymeg glir nac asesiad addas ar waith o'r risg o gyflogi staff heb wiriad addas gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cawsom sicrwydd nad oedd y mater hwn yn peri unrhyw risg uniongyrchol i gleifion gan nad oedd unrhyw aelod o'r staff gweinyddol hyn yn gweithredu fel hebryngwyr nac yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain ag unrhyw gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom rannu ein pryderon â rheolwr y practis bod yr aelodau hyn o staff yn gallu gweld data sensitif am gleifion heb oruchwyliaeth, heb fod y gwiriadau priodol ar waith.

Rhaid i'r practis gael rhesymeg glir, gan gynnwys asesiad risg, ar gyfer staff sy'n gweithio heb wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd brechiadau Hepatitis B ac imiwnedd staff yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'i imiwnyddio'n briodol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt o'r hyn a welsom a'r hyn a ddywedodd y staff wrthym. Roedd y practis wedi mabwysiadu gweledigaeth a gwerthoedd y bwrdd iechyd a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol ohonynt ac yn eu deall. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn falch gweithio i Bractis Meddygol Ffordd y Gogledd a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gwelsom ddiwylliant cyffredinol ar waith yn y practis a oedd yn helpu'r staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w cleifion. Dywedodd pob un a

ymatebodd i holiadur staff AGIC y byddai'n argymhell y practis hwn fel lle da i weithio ynddo ac nad oedd ei swydd yn cael effaith andwyol ar ei iechyd.

Roedd adborth yn cael ei gasglu'n rheolaidd gan gleifion a staff ac yn cael ei adolygu gan reolwr y practis. Roedd yr adborth hwn yn dod o'r blwch sylwadau cleifion yn y dderbynfa a holiaduron staff. Roedd unrhyw adborth llafar gan gleifion yn cael ei nodi mewn neges e-bost ac yn cael ei anfon at reolwr y practis er mwyn iddo fwrw golwg arno. Roedd canlyniadau adborth gan gleifion ac ymatebion i'r adborth hwnnw yn cael eu cyfleu i'r cleifion ar hysbysfwrdd yn yr ardal aros. Yn ddiweddar, roedd y practis wedi cymryd rhan mewn arolwg cleifion cenedlaethol a gwelsom fod camau wedi'u cymryd mewn ymateb i'r adborth a gafwyd drwy'r arolwg hwnnw.

Gwnaethom adolygu'r polisi chwythu'r chwiban ac roedd yn foddhaol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r ymatebwyr i holiadur staff AGIC yn teimlo'n hyderus wrth leisio pryderon ac yn ymwybodol o'r broses ar gyfer gwneud hynny. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fynegi unrhyw syniadau ar gyfer gwella ansawdd.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis yn gadarn ac yn cydymffurfio'n llwyr â Gweithio i Wella. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu i'r cleifion. Roedd rheolwr y practis yn defnyddio matrices i fonitro cwynion ac i olrhain unrhyw dueddiadau.

Roedd cyfrifoldebau'r staff mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'u hamlinellu mewn polisi a gweithdrefn addas a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd i ni eu hadolygu, roedd y weithdrefn a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd dau ymatebydd i holiadur staff AGIC yn anghytuno eu bod yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall. Fodd bynnag, gwelsom fod cwrs hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i drefnu i bob aelod o'r staff ym mis Gorffennaf 2024.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod systemau priodol ar waith, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, i sicrhau bod gwybodaeth a data o ansawdd uchel yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd addas yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir, yn berthnasol ac yn gyflawn. Roedd y broses ar gyfer hysbysu cyrff allanol yn effeithiol, ac roedd mesurau perfformiad gwasanaeth clir yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Iechyd a'u cyhoeddi ar-lein bob mis.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan staff a chleifion yn arwain at welliannau parhaus. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer ystyried adborth yn ystod cyfarfodydd rheoli'r practis a thrafodaethau â'r staff. Roedd y practis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu cynnal â phartneriaid gofal iechyd. Gwelsom hefyd enghreifftiau o achosion lle roedd y practis wedi arwain ar ddarnau o waith i wella gwasanaethau er budd cleifion ym mhob rhan o glwstwr y bwrdd iechyd. Roedd cydberthnasau â gwasanaethau eraill yn dda ac yn gwella profiad cleifion.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Wrth arolygu oergell yn yr ystafell drin, gwelsom fod sampl wrin wedi'i storio yno cyn iddo gael ei anfon i'w brofi.	Ni ddylid cadw wrin mewn oergell. Roedd yr wrin hefyd wedi'i storio'n anghywir a allai fod wedi effeithio ar yr eitemau eraill a oedd wedi'u storio yn yr oergell.	Gwnaethom uwchgyfeirio hyn at reolwr y practis ar unwaith.	Cafodd y sampl wrin ei symud oddi yno a chafodd y staff gyfarwyddyd i beidio â storio samplau wrin yn y ffordd hon. Mae'n ymddangos mai camgymeriad oedd hyn ac nad oedd yn digwydd fel mater o drefn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Meddygol Ffordd y Gogledd

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol Ffordd y Gogledd

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion ofyn am gael siarad â'r staff mewn ystafell breifat pe byddai angen, ond nid oedd y wybodaeth hon yn cael e'i rhannu â'r cleifion wrth ddesg y dderbynfa. Nododd hanner yr ymatebwyr i holiadur AGIC nad oeddent yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed. Gwnaethom nodi y gallai hyn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion yn y practis.	Rhaid i'r practis sicrhau bod opsiwn ar gael i'r cleifion siarad â staff y dderbynfa yn breifat ar gais.	Rydym wedi gosod posteri yn yr ystafell aros ac yn y dderbynfa yn esbonio y gall cleifion ofyn am gael siarad yn breifat wrth ddesg y dderbynfa.	Cath Smith	Wedi'i gwblhau

<p>Wrth edrych ar gofnodion y practis, gwelsom fod manylion hebryngwyr wedi'u nodi'n briodol yng nghofnod pob un ond un o'r deg claf. Nododd un claf a ymatebodd i holiadur AGIC na chynigiwyd hebryngwr iddo ar gyfer archwiliad personol.</p>	<p>Rhaid i'r practis bob amser gynnig hebryngwr i'r cleifion a sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cwblhau.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod nodiadau pob claf yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r ffaith bod hebryngwr wedi'i gynnig.</p> <p>Rydym wedi gosod posteri yn y ddwy feddygfa sy'n cynnig gwasanaeth hebryngwr. Bydd pob meddyg teulu bob amser yn gofyn i'r cleifion a fyddent yn hoffi cael hebryngwr.</p> <p>Rydym wedi diweddarau ein gwefan i gynnig gwasanaeth hebryngwr i gleifion - Appointments - North Road Medical Practice Cardiff (nhs.wales)</p>	<p>Cath Smith</p> <p>Pob meddyg teulu</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom nad oedd llawer o ymdrech i sicrhau darpariaeth Gymraeg ac i symud tuag at roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith. Dywedodd y staff wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd nad oedd unrhyw</p>	<p>Dylai'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith yn llawn.</p>	<p>Mae dau aelod o'r tîm clinigol yn siarad Cymraeg yn hyderus, fodd bynnag, am resymau diogelwch clinigol, byddwn bob amser yn ymgynghori ac yn dogfennu yn Saesneg.</p>	<p>Pob aelod o'r staff</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>aelod o'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg, ac mai dim ond un clinigydd oedd yn siarad Cymraeg, ac nad oedd yn hyderus. Gwelsom mai arwyddion uniaith Saesneg oedd o amgylch y practis ond cadarnhaodd y staff fod y llinell iaith yn cael ei defnyddio i gyfathrebu â chleifion, yn ôl yr angen.</p>		<p>Rydym yn cynnig llinell iaith i gleifion sydd am gyfathrebu mewn iaith heblaw Saesneg.</p> <p>Byddwn yn ceisio sicrhau bod arwyddion newydd yn cynnwys y Gymraeg.</p>		
<p>Gwelsom dystiolaeth nad oedd y staff nyrsio yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol lle roedd diweddariadau a sgysiau pwysig yn cael eu cynnal am gleifion. Roedd hyn yn peri risg na fyddai'r tîm nyrsio yn ymwybodol o wybodaeth am gleifion neu brosesau'r practis.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod cynrychiolwyr o bob adran o'r practis yn bresennol mewn cyfarfodydd, pan fo hynny'n ymarferol.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnwys Tîm Nyrsio'r Practis yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn y dyfodol, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir.</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom fod ardal i'r staff yn unig ar lawr uchaf y practis yn anhrefnus, gyda blychau yn</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob rhan o'r adeilad yn cael ei chadw'n daclus ac yn drefnus.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod blychau wedi'u storio yn yr ardaloedd staff ac y gallwn</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>30/9/24</p>

<p>cael eu storio ar y llawr ym mhob rhan o'r ystafell. Roedd yn ymddangos fel petai eitemau wedi cael eu gadael ar y llawr ac ar ddesgiau, ac roedd cynhyrchion glanhau i'w gweld nad oeddent wedi'u storio mewn cypyrddau. Gwnaethom nodi y gallai'r peryglon baglu niferus a'r cyfarpar glanhau nad oedd wedi'i storio'n ddiogel yn yr ardal hon beri risg i'r staff a oedd yn defnyddio'r rhan hon o'r adeilad.</p>		<p>wella'r trefniadau yn hyn o beth a thrwy hynny, wella diogelwch y staff.</p> <p>Byddwn yn trafod trefniadau ar gyfer storio cyfarpar glanhau mewn cabinet gyda'n Cwmni Glanhau.</p>	Cath Smith	30/06/24
<p>Gwelsom fod asesiadau risg ar ddiogelwch tân, iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal mewn modd addas ond roedd yn ymddangos bod y ddogfen gyflawn ddiweddaraf a welsom wedi'i llunio yn 2019. Roedd asesiadau risg mwy diweddar wedi'u cwblhau gan staff y practis, ond nid oeddent yn</p>	<p>Rhaid i'r practis gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i asesiadau risg o ran diogelwch tân, iechyd a diogelwch ac atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Rydym yn cydnabod y gallai asesiadau risg fod yn fwy cynhwysfawr a byddwn yn llunio cynllun i sicrhau y cânt eu cwblhau fel mater o drefn.</p>	Cath Smith	31 Rhagfyr 2024

<p>nodi'r holl risgiau sy'n bodoli a dim ond nifer cyfyngedig o beryglon posibl a amlinellwyd ganddynt. Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i nodi yn asesu'r risgiau hyn, ond nid oedd y dogfennau yn gynhwysfawr. Argymhellwyd y dylai'r practis ofyn i ddarparwr asesiadau risg allanol ei helpu i gynnal adolygiad cynhwysfawr o asesiadau risg y practis. Cawsom sicrwydd bod y risgiau sy'n bodoli yn cael eu hasesu ond roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â nifer y peryglon a nodwyd.</p>				
<p>Nid oedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisi atal a rheoli heintiau nac yn gwybod ble y gellid dod o hyd iddo.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhannu ei bolisiau'n glir â phob aelod o'r staff a bod modd dod o hyd iddynt yn hawdd.</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi darllen y polisi atal a rheoli heintiau ac wedi cadarnhau eu bod yn ei ddeall. Bydd darllen y ddogfen yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Yn yr ystafelloedd ymgynghori, gwnaethom nodi nad oedd dyddiadau wedi'u hysgrifennu ar y llenni preifatrwydd tafladwy, a oedd yn golygu na allem gadarnhau pryd y cawsant eu gosod. Nid oedd unrhyw driniaethau mewnwthiol yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd hyn, felly roedd y risgiau i'r cleifion yn isel, ond dylid nodi dyddiad ar bob eitem dafladwy. Gwelsom hefyd bosteri a phapurau eraill wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys yr ystafell drin, nad oeddent wedi'u lamineiddio, a oedd yn golygu na ellid eu glanhau'n effeithiol. Gallai hyn beri risg i ddiogelwch y cleifion. Dywedodd hanner y staff a ymatebodd i holiadur AGIC nad oedd modd glanhau'r amgylchedd yn effeithiol neu nad oedd amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dyddiad wedi'i nodi ar eitemau tafladwy, fel llenni preifatrwydd.

Rhaid i'r practis sicrhau y gellir glanhau pob arwyneb yn y practis yn effeithiol, yn enwedig yn yr ystafelloedd trin.

Byddwn yn sicrhau bod dyddiad wedi'i nodi ar yr holl lenni tafladwy a'n bod yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer eu newid bob chwe mis.

Byddwn yn sicrhau y gellir glanhau pob arwyneb yn y practis, yn enwedig ystafelloedd trin, yn effeithiol drwy greu polisi a sicrhau bod archwiliadau yn cael eu cynnal i asesu'r polisi a sicrhau ei fod yn effeithiol.

Cath Smith

30/6/24

Cath Smith

31/7/24

<p>Pan wnaethom ymweld â changen Practis Meddygol Ffordd y Gogledd yn ei safle ym Meddygfa Cathedral View ar Llanidloes Road gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran ei harferion atal a rheoli heintiau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd amserlen lanhau ar waith ar gyfer rhai ardaloedd o gangen y practis • Nid oedd rhestr wirio ar waith er mwyn i'r staff wybod pa ardaloedd oedd wedi cael eu glanhau • Roedd y cwpwrdd glanhau yn anniben ac roedd eitemau yn cael eu storio'n amhriodol. 	<p>Rhaid i'r practis roi amserlen lanhau a rhestr wirio ar waith ar gyfer Meddygfa Cathedral View er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael ei chadw'n lân, yn daclus ac yn drefnus.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod amserlen lanhau a rhestr wirio ar gael ac yn cael eu cwblhau bob dydd</p> <p>Byddwn yn trafod y broses o storio cynhyrchion glanhau yn y cwpwrdd glanhau gyda'r cwmni glanhau er mwyn sicrhau bod system ar waith. Mae'r cwpwrdd glanhau mewn rhan o'r feddygfa nad yw'r cleifion yn ei gweld a gellir ei gloi.</p>	<p>Cath Smith</p> <p>Cath Smith ac Albany Cleaning</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>30/06/24</p>
--	--	--	--	-----------------------------------

<p>Ni chynhaliwyd arolygiad llawn o'r safle hwn ac er bod Meddygfa Cathedral View yn lân yr olwg, heb amserlen na rhestr wirio ar waith, mae'n bosibl y byddai hynny'n effeithio ar y safonau hyn.</p>				
<p>Roedd pob meddyginiaeth ond un o fewn y dyddiad defnyddio. Roedd y dyddiad ar yr Hydrocortisone Sodium Succinate wedi mynd heibio. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r staff a ddywedodd fod hyn am fod y feddyginiaeth honno'n brin yn y DU. Cynghorwyd y practis y dylai gadw mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd i fonitro'r sefyllfa o ran stociau Hydrocortisone Sodium Succinate.</p>	<p>Rhaid i'r practis gadw mewn cysylltiad agos â'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r prinder Hydrocortisone Sodium Succinate ac archebu cyflenwad newydd pan fydd ar gael.</p>	<p>Roeddem mewn cysylltiad â'r Bwrdd Iechyd Lleol a'n cyflenwyr cyffuriau o ran y prinder er mwyn cael cyngor ar y cyflenwad ac ar ddefnyddio'r stoc bresennol</p>	<p>Neb</p>	<p>Neb</p>

<p>Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod ein harolygiad yn gallu enwi arweinydd diogelu'r practis a gwelsom fod manylion yr unigolyn hwnnw wedi'u harddangos ac wedi'u cynnwys ym mholisiau'r practis. Fodd bynnag, dywedodd hanner yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC eu bod naill ai'n 'anghytuno'n gryf' neu'n 'anghytuno' eu bod yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer y practis.</p>	<p>Dylai'r practis hyrwyddo rôl yr arweinydd diogelu yn fwy cadarn i bob aelod o'r staff.</p>	<p>Byddwn yn sicrhau y tynnir sylw at yr arweinydd diogelu yn ystod y broses sefydlu ac yn atgoffa'r staff yn gyffredinol o'r arweinydd diogelu a enwyd. Byddwn yn addysgu aelodau'r tîm er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod y dylid mynd at y meddyg sydd ar ddyletswydd y diwrnod hwnnw i drafod unrhyw faterion os na fydd yr arweinydd diogelu ar gael</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>Ar unwaith</p>
<p>O'r 13 o staff anghlinigol, nid oedd chwech ohonynt wedi cael hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau. Byddai lefel sylfaenol o hyfforddiant yn sicrhau bod risgiau o heintiau yn cael eu rheoli'n briodol.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau hyd at lefel sylfaenol.</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae gennym 11 o aelodau o staff anghlinigol. Mae saith wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Byddwn yn sicrhau bod y pedwar aelod o staff sy'n weddill yn cwblhau eu hyfforddiant cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>31/7/24</p>

<p>Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddweud wrthym nad oedd hyfforddiant Cymraeg yn cael ei gynnig fel mater o drefn ac nad oedd amser yn cael ei roi i'r staff gwblhau'r hyfforddiant.</p>	<p>Dylai'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd i gynnig hyfforddiant Cymraeg i'r staff yn ogystal ag amser iddynt gwblhau'r hyfforddiant.</p>	<p>Mae'r sector Gofal Sylfaenol yn ei chael hi'n anodd darparu gwasanaethau. O ystyried y pwysau presennol, nid ydym o'r farn bod cynnig hyfforddiant Cymraeg i'r staff yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried gwneud hynny pan fydd amser yn caniatáu.</p> <p>Rydym wedi holi'r staff presennol ac nid oed unrhyw aelod o staff yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg ar hyn o bryd.</p> <p>Byddwn yn cynnig yr opsiwn i ddysgu Cymraeg fel rhan o'r broses sefydlu i aelodau newydd o staff, ac yn trafod cynlluniau hyfforddi ar sail unigol.</p> <p>Rydym wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â'r dolenni sydd wedi torri i'w dudalen 'Cyfleoedd</p>	<p>Cath Smith</p>	<p>Ar waith</p>
---	---	---	-------------------	-----------------

		Hyfforddiant Cymraeg' er mwyn i'r staff allu dewis y cwrs cywir ar eu cyfer nhw. Cyfleoedd Hyfforddiant Cymraeg – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (gig.cymru)		
<p>Gwnaethom nodi'r materion canlynol mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi i'r staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd gwiriadau Safonol na Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff gweinyddol hirsefydlog i'w gweld yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt • Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod rhesymeg glir nac asesiad addas ar waith o'r risg o gyflogi staff heb wiriad addas gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. <p>Cawsom sicrwydd nad oedd y mater hwn yn peri unrhyw risg</p>	Rhaid i'r practis gael rhesymeg glir, gan gynnwys asesiad risg, ar gyfer staff sy'n gweithio heb wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Bydd y practis yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Cath Smith	Ar unwaith

uniongyrchol i gleifion gan nad oedd unrhyw aelod o'r staff gweinyddol hyn yn gweithredu fel hebryngwyr nac yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain ag unrhyw gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom rannu ein pryderon â rheolwr y practis bod yr aelodau hyn o staff yn gallu gweld data sensitif am gleifion heb oruchwyliaeth, heb fod y gwiriadau priodol ar waith.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Catherine Smith

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024